



Annwyl rieni a gofalwyr

Pleser yw cyflwyno adroddiad blynyddol 2021/22 Ysgol Glanrafon i'n cymuned. Bydd yr adroddiad hwn yn rhoi trosolwg i chi o waith yr ysgol dros y flwyddyn ddiwethaf, ei llwyddiannau, a'r amcanion ar gyfer y flwyddyn nesaf.

Mae wedi bod yn flwyddyn heriol ond llwyddiannus arall i'n staff, llywodraethwyr, a myfyrwyr. Er bod y pandemig wedi lleddfu, parhaodd Covid i achosi llawer o anawsterau; rhywbeth efallai nad yw pawb hyd yn oed wedi sylwi diolch i waith caled y staff i gadw pethau i fynd yn esmwyth. Mae delio â safle adeiladu a pharatoi ar gyfer y newid enfawr a ddaw gydag estyniad newydd wedi ychwanegu pwysau ychwanegol. Fel bob amser, ein disgyblion yw'r flaenoriaeth ac mae'r staff, sy wedi rhoi o'u hamser eu hunain, wedi sicrhau bod symud i'r adeilad newydd wedi bod yn llyfn ac yn llawn cyffro!

Mae cymuned Glanrafon yn hynod ffodus i gael y cyfleuster newydd hwn a'r cyfleoedd a ddaw yn ei sgil. Yn fuan, croesawn y Cylch Meithrin i safle'r ysgol, yn dynodi cyfnod cyffrous a phwysig yn natblygiad addysg cyfrwng Cymraeg yn ein hardal. Byddem wrth ein bodd yn arddangos yr ysgol felly cofiwch gysylltu os hoffech chi edrych o gwmpas a gweld amgylchedd dysgu eich plant.

Fel gyda phob blwyddyn, rydym yn ffarwelio ag aelodau gwerthfawr o dîm Glanrafon eleni ac yn croesawu staff newydd. Dymunwn y gorau i Mrs Lowri Hogg, Mrs Sioned Coulman, a Ms Julie Giddins gan gydnabod eu cyfraniad amhrisiadwy i Glanrafon. Edrychwn ymlaen at groesawu Miss Lois Ellis a Mr Emyr Gwynedd i'r tîm ym mis Medi.

Y flwyddyn hon, rydym ni fel llywodraethwyr wedi parhau â'n cyfrifoldebau i gefnogi'r ysgol, codi safonau, gofyn y cwestiynau heriol lle bo'r angen er mwyn sicrhau bod pob plentyn yn cael cyfle i ddatblygu eu potensial i'r eithaf. Bydd hyn, wrth gwrs, yn parhau y flwyddyn nesaf a hoffwn ddiolch yn fawr i'r llywodraethwyr sy'n rhoi'n hael o'u hamser i wasanaethu'r ysgol.

Hoffwn hefyd ddiolch i'r pennaeth, Mrs Olwen Corben, y staff, a'r arweinwyr am eu gwaith di-ddiwedd i ddarparu gofal, cymorth, ac arweiniad i wella lles ac addysg ein plant. Diolch hefyd i chi, rhieni a gofalwyr ein disgyblion, sy'n gweithio mewn partneriaeth â ni er lles eich plant a'r ysgol gyfan. Mae'n rhaid rhoi diolch hefyd i'n disgyblion bendigedig!

Mae'n sicr y bydd heriau i ddod, ond edrychwn ymlaen at adeiladu ar lwyddiannau Glanrafon ac at flwyddyn fwy sefydlog. Rydym yn croesawu adborth, sylwadau, ac awgrymiadau gan ein cymuned ysgol felly cofiwch gysylltu os oes gennych unrhyw beth i'w rannu.

Gyda dymuniadau gorau,  
Vanessa Leach  
Cadeirydd y Llywodraethwyr  
[vanessajaynebrown@yahoo.co.uk](mailto:vanessajaynebrown@yahoo.co.uk)

Cynhelir cyfarfod i drafod yr Adroddiad Blynyddol os oes o leiaf 10% o rieni'r ysgol yn gofyn am un. Ffoniwch yr ysgol cyn 10/9/22 os hoffech gyfarfod gyda Llywodraethwyr i drafod yr adroddiad



## Ein Gweledigaeth



Cyrraedd y safonau uchaf posibl mewn ysgol weithgar, ofalgar, hapus a Chymreig lle y dangosir parch at blant a phobl, gan roi iddynt oll gyfle teg i ddatblygu i'w llawn botensial.



## Ein Amcanion



- Creu awyrgylch hapus a diogel o fewn yr ysgol
- Sicrhau fod pob plentyn yn cael cyfle i ddatblygu'n gymdeithasol, emosiynol ac addysgol
- Datblygu diwylliant Cymreig y disgyblion
- Cyflwyno'r gwerthoedd gorau a'r safonau uchaf posib i'r plant
- Galluogi plant i wahaniaethu rhwng y drwg a'r da
- Rhoi'r cyfleoedd i'r plant gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau addysgol ac allgyrsiol.
- Sicrhau fod pob plentyn yn ddwyieithog erbyn iddo ef/hi adael yr ysgol
- Hybu caredigrwydd a chwarteisi ymhlith y plant
- Creu perthynas dda rhwng yr ysgol a'r rhieni a'r gymuned
- Creu dinasyddion a fydd yn y dyfodol yn barod i ysgwyddo cyfrifoldebau
- Gwneud addysg yn brofiad gwerthfawr a chofiadwy ac yn bleser llwyr i bob disgybl
- Datblygu'r pedwar diben

# Y Corff Llywodraethol

Mae'r Corff Llywodraethu yn gyfrifol am sicrhau bod yr ysgol yn rhedeg yn effeithiol, yn gweithredu o fewn y fframwaith a osodwyd gan ddeddfwriaeth ac y cydymffurfir â pholisïau Awdurdod Lleol (ALI) a Llywodraeth Cymru. Prif nod y corff yw sicrhau bod pob disgybl yn Ysgol Glanrafon yn cael cyfleoedd ac yn cael eu herio i gyflawni eu potensial. Yn ystod ein cyfarfodydd, mae staff yn cyflwyno gwybodaeth am yr ysgol a'r cynllun datblygu ac mae llywodraethwyr yn gofyn cwestiynau heriol o ran diben gweithgareddau a'u heffaith.

Mae llywodraethwr yn rhywun sydd:

- â diddordeb mewn dysgu, addysgu a phlant;
- yn cynrychioli pobl yn y gymuned leol a staff yr ysgol;
- yn rhan o dîm sy'n derbyn cyfrifoldeb am bopeth y mae ysgol yn ei wneud;
- ag amser i ymrwmo i gyfarfodydd ac achlysuron eraill pan fydd angen;
- yn barod i ddysgu;
- yn gallu bod yn gyfaill sy'n cefnogi ac yn herio'r ysgolion drwy gadw golwg ar sut mae'r ysgol yn gweithio a'r safon a gyflawnir
- yn gweithredu fel cyswllt rhwng rhieni, y gymuned leol a'r ysgol.

Mae'n rôl wirfoddol ac rydym yn diolch i'r holl lywodraethwyr am eu hymrwymiad.

Enw	Rôl
Mrs Vanessa Leach	Cadeirydd Llywodraethwyr (Rhiant) <a href="mailto:vanessajaynebrown@yahoo.co.uk">vanessajaynebrown@yahoo.co.uk</a>
Mr Goronwy Morris	Is-gadeirydd Llywodraethwyr (LIC)
Mrs Ceri Townsend	Llywodraethwr Cymunedol
Mrs Sara Williams	Llywodraethwyr Cymunedol
Mr Tom Mallen	Rhiant Lywodraethwr
Mrs Glesni Thomas	Rhiant Lywodraethwr
Mrs Rhiannon Dafydd	Rhiant Lywodraethwr
Mr Aled Zackary	Rhiant Lywodraethwr
Mrs Nia Lloyd Hughes	Staff Lywodraethwr
Mrs Einir Huws	Athro Lywodraethwr
Mr Eilir Roberts	Athro Lywodraethwr
Mr Stephen Townley	Llywodraethwyr ALI
Mr Haydn Bateman	Llywodraethwyr ALI
Mrs Olwen Corben	Pennaeth
Mrs Debbie Jones Roberts	Clerc <a href="mailto:postglanrafon@hwbcymru.net">postglanrafon@hwbcymru.net</a>

## Etholiad Rhiant Lywodraethwyr

Eleni rydym wedi cynnal etholiad ar gyfer dau riant lywodraethwyr newydd. Dechreuodd Mrs Rhiannon Dafydd a Mr Aled Zackery fel llywodraethwyr ym mis Ionawr 2022. Byddwn yn rhoi gwybod i chi mewn da bryd am y etholiad nesaf.

## Beth wnaethom ni yn 2021-2022? Edrych yn ôl...

### Cyfleoedd chwaraeon

Yn dilyn y cyfnod anodd yma, prin oedd y cyfleoedd i ddisgyblion gymryd rhan mewn unrhyw chwaraeon ar ddechrau tymor yr Hydref 2021. Erbyn Gwanwyn a Haf 2022 mae'r disgyblion wedi cael amrywiaeth o brofiadau gan gynnwys pêl-droed a phêl-rwyd yr urdd, pêl-droed merched a treiathalon!

Rydym hefyd wedi llwyddo cynnal diwrnodau mabolgampau ac mi roedd y disgyblion ieuengaf wrth eu boddau yn gweld eu rhieni a'u neiniau a teidiau yn gwneud ras wŷ ar lwy.



Pêl-rwyd  
Disgyblion wedi mwynhau yng  
nghystadleuaeth yr Urdd 2022



Treiathalon  
Disgyblion blwyddyn 3 i 6 wrth eu  
boddau!



Pêl-droed  
Disgyblion wedi mwynhau yng  
nghystadleuaeth yr Urdd 2022



Pêl-droed Merched  
Disgyblion blwyddyn 3 wedi  
mwynhau cyn ddechrau  
cystadleuaeth cwpan Ewro Merched

## Yr adeilad newydd



Ar ôl blwyddyn a hanner o waith adeiladu mae'r adeilad wedi ei gwblhau! Mae'r staff wedi symud 17 dosbarth a gwagu pob ystafell yn ei dro. Mae yna lwch wedi bod ym mhobman!

Wrth edrych yn ôl, gallwn weld faint o waith sydd wedi ei gwblhau. Rydym yn ffodus iawn. Y cam nesaf fydd i ddatblygu yr ardaloedd tu allan.

Diolch i chi gyd am eich amynnedd ac eich hyblygrwydd.

## Llwyddiant Eisteddfod yr Urdd 2022



Cân Actol 3ydd

Olive ac Awen

1af Deuawd cerdd dant  
3ydd Deuawd



Elis Ashford  
3ydd unawd –  
bl 3 a 4  
1af Llun 2D



Gwenno Wort  
1af Graffeg  
Cyfrifiadurol  
Bl 2 ac iau

Cor Adran yr Wyddgrug 3ydd



## Eisteddfod Ysgol Glanrafon 2022



**Enillydd y Gadair**

1af - Lili  
2il Gethin  
3ydd Eve

## Cyllideb Ysgol Glanrafon 2022



### YSGOL GLANRAFON (287) FINANCIAL OUTTURN 2021/22

BUDGET HEADING	BUDGET 2021/22	EXPENDITURE 2021/22	DIFF + OR (-)
BALANCE FROM 2020/21	155,827		155,827
EMPLOYEES	988,014	1,348,762	-360,748
PREMISES	94,070	63,572	30,498
TRANSPORT			-
SUPPLIES	48,136	55,989	-7,853
SCHOOL MEALS		52,620	-52,620
SERVICE LEVEL AGREEMENTS	34,735	47,724	-12,989
INCOME		-354,980.00	354,980
SPECIAL UNIT	94,880		94,880
<b>TOTAL 2021/22</b>	<b>1,415,662</b>	<b>1,213,687</b>	<b>201,975</b>

### Cysylltiadau gyda'r gymuned

Mi roeddwn yn gweithio'n agos gyda'r gymuned leol yn enwedig cyn Covid. Enghreifftiau:

- Gwahodd y gymuned i fynychu Gŵyl Cynhaeaf a chyngherddau Nadolig.
- Gwneud defnydd rheolaidd o'r ardal leol
- Gweithio mewn partneriaeth gydag Ysgol Maes Garmon
- Cysylltiadau ardderchog gyda Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu Lleol gyda PC Marc Jones yn ymweld yn rheolaidd.
- Defnyddio ein app i gyfathrebu.
- Casglu sbwriel yn yr ardal.
- Cymryd rhan mewn Eisteddfodau.
- Cynnal a chymryd rhan mewn digwyddiadau yn yr Wyddgrug e.e. côr yn canu yn sgwar Daniel Owen
- Derbyn cefnogaeth dda
- Dysgu am yr ardal leol
- Gweithio gyda'r eglwys er mwyn creu gwaith ar gyfer wythnos ffoaduriaid
- Gwasanaeth gan y Parchedig Martin Batchelor

## Hybu bwyta ac yfed yn iach

Mae Ysgol Glanrafon yn hybu cynllun ysgolion iach Llywodraeth Cymru. Cyn Covid roeddem yn cymryd rhan yn nathliad ysgolion iach bob blwyddyn. Mae pob ysgol yn hybu bwyta ac yfed yn iach gan hybu canllawiau blas am oes. Mae'r ysgol yn pwysleisio hylendid da.

Rydym yn rhannu gwybodaeth gyda ein rhieni trwy'r app h.y. pecynau bwyd iach, gweithgareddau bwyta'n iach, gweithdai PC Marc Jones. Mae'r disgyblion wrth eu boddau yn cwblhau milltir y dydd.



## Toiledau a'r adeilad

Mae'r estyniad yn wych ac rydym yn ffodus iawn i fod yn datblygu gweddill yr ysgol.

Mae gan bob rhan o'r ysgol gyfleusterau toiledau da sy'n cael eu glanhau yn rheolaidd ond yn fwy aml yn ystod Covid. Mae toiledau yn cael eu harchwilio yn ystod y dydd yn yr ysgol.

Mae 5 toiled anabl ac un cyfleustera.

## Polisiau a Strategaethau

Mae'r holl ddogfennau polisi ar gyfer y Cwricwlwm yn cael eu paratoi i gynnwys y pedwar diben a chwricwlwm i Gymru. Mae'r holl bolisiau nad ydynt yn y cwricwlwm ar waith ac yn cael eu diweddarau'r rheolaidd.

Mae'r prospectws wedi ei ddiweddarau ac ar gael arlein yma.

Rydym yn diweddarau'r Cynllun Datblygu Ysgol yn rheolaidd.

Mae'r holl Gynlluniau Gwaith yn cael eu datblygu gyda mewnbwn disgyblion.

*Cysylltwch â'r ysgol os hoffech gopi o unrhyw un o'n Dogfennau Polisi neu os ydych angen unrhyw wybodaeth ychwanegol.*




## Dysgu ac Addysgu

Mae gennym berthynas waith ardderchog yn Ysgol Glanrafon. Rydym yn gweithio ar gwricwlwm newydd i'r ysgol o fewn y Cwricwlwm i Gymru gyda phedwar diben. Mae disgyblion yn cael eu haddysgu mewn dosbarthiadau oedran cymysg ac uned anghenion ychwanegol ar gyfer cyfnod allweddol 2, :ac rydym yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau addysgu. Mae pob disgybl yn cael mynediad i'r cwricwlwm. Mae'r staff yn gweithio'n galed er mwyn symud ymlaen gyda Cwricwlwm i Gymru.

Mae pob athro wedi derbyn amrywiaeth o hyfforddiant gan gynnwys hyfforddiant dysgu trwy ymholi. Rydym wedi dechrau datblugu strategaethau dysgutrwy ymholi yn Ysgol Glanrafon a byddwn yn canolbwyntio ar hyn fel rhan o ddatblygiad yr ysgol yn y dyfodol.

Rydym yn parhau i arsylwi ein gilydd ac ysgolion eraill er mwyn datblygu arfer orau a darparu'r gorau ar gyfer disgyblion Ysgol Glanrafon.

## Cwricwlwm Ysgol Glanrafon 2021-2022



Rydym wedi:

- Datblygu'r pedwar diben ar gyfer Ysgol Glanrafon
- Parhau i ddatblygu cyfleoedd a profiadau arbennig ar gyfer ein disgyblion
- Cael hyfforddiant a dechrau arbrofi gyda dysgu trwy ymholi
- Trefnu hyfforddiant pellach ar ddysgu trwy ymholi
- Creu gwelediageth gytun gyda ein rhandeiliaid
- Cael dylinwr technolegol i gyflwyno mewnbyn rhandeiliaid a'n gwerthoedd
- Datblygu datgnaid ar gyfer cwricwlwm Ysgol Glanrafon i'w gyhoeddi ar ein gwefan



## Dyddiadau'r tymor 2021-2022

<b>Tymor yr Hydref 2022</b>	
1 Medi 2022	Hyfforddiant Mewn Swydd
2 Medi 2022	Hyfforddiant Mewn Swydd
5 Medi 2022	Ysgol yn agor i ddisgyblion
28 Hydref 2022	Diwrnod olaf cyn hanner tymor
7 Tachwedd 2022	Hyfforddiant Mewn Swydd
8 Tachwedd 2022	Ysgol yn agor i ddisgyblion
22 Rhagfyr 2022	Diwrnod olaf cyn gwyliau'r Nadolig
23 Rhagfyr 2022	Hyfforddiant Mewn Swydd
<b>Spring Term 2023</b>	
9 Ionawr 2023	Hyfforddiant Mewn Swydd
10 Ionawr 2023	Ysgol yn agor i ddisgyblion
17 Chwefror 2023	Diwrnod olaf cyn hanner tymor
27 Chwefror 2023	Ysgol yn agor i ddisgyblion
31 Mawrth 2023	Diwrnod olaf cyn gwyliau'r Pasg
<b>Summer Term 2023</b>	
17 Ebrill 2023	Ysgol yn agor i ddisgyblion
26 Mai 2023	Diwrnod olaf cyn hanner tymor
5 Mehefin 2023	Ysgol yn agor i ddisgyblion
19 Gorffennaf 2023	Diwrnod olaf cyn gwyliau'r Haf
20 Gorffennaf 2023	Hyfforddiant Mewn Swydd

## Defnydd o'r Gymraeg

Mae Ysgol Glanrafon yn ysgol cyfrwng Cymraeg. Mae pob plentyn yn cael addysg Gymraeg tan diwedd blwyddyn 2 yna byddant yn dechrau dysgu Saesneg ym mlwyddyn 3.

Mae'r disgyblion yn hollol ddwyieithog.

Prif iaith yr ysgol yw Cymraeg.






# Cynllun Datblygu Ysgol

Mae pwyslais wedi bod ar les y llynedd gyda'r ysgol ar gau ar gyfer disgyblion am fwyafrif o'r flwyddyn. Mae pawb wedi cydweithio er mwyn datblygu sgiliau newydd a chyflwyno gwaith ar lein.

Rydym yn parhau i weithio'n galed i ddatblygu'r cwricwlwm er mwyn cynnig y gorau i ddisgyblion Ysgol Glanrafon.

Crynodeb o flaenoriaethau 2020-2021	Synopsis o'r gweithredoedd cyn belled
1. <b>Lles Disgyblion</b>	<ul style="list-style-type: none"><li>Cyflwyno ELSA(Cynhorthydd emosiynol)</li><li>Gwersi Lles</li><li>Sicrhau cyfeloedd i siarad a rhannu teimladau</li><li>Gwener Gwych</li><li>Staff i wneud hyfforddiant -Ysgol sy'n wybodus am drawma</li></ul>
2. <b>Cwricwlwm i Gymru</b>  Cyfarwyddo'n llawn ag egwyddorion y cwricwlwm diwygiedig yn barod ar gyfer ei fabwysiadu'n llawn	<ul style="list-style-type: none"><li>Penodi pennaeth dysgu ac addysgu</li><li>Awdit/mewnbwn o wybodaeth staff</li><li>Datblygu Dysgu trwy ymholi</li><li>Hyfforddiant gwerthoedd i staff</li><li>Fframwaith Llythrennedd, rhifedd a TGCh</li><li>Fframwaith Camau Cynnydd</li><li>Gwerthuso a symud ymlaen</li></ul>
3. Herio disgyblion <b>mwyafrif galluog</b> i gyrraedd y lefelau/deilliannau uwch	<ul style="list-style-type: none"><li>Sicrhau fod gweithgareddau yn cynnig her</li><li>Hyn wedi bod yn heriol o ran cynnig dysgu o bell</li><li>Parhau trwy ddulliau Dysgu trwy ymholi</li><li>Defyddio asesu i fwydo cynlluniau</li></ul>
4. Sicrhau bod y <b>Fframwaith Ddigidol</b> mewn lle ac wedi gwreiddio'n ddwfn i holl weithgareddau'r ysgol	<ul style="list-style-type: none"><li>Fframwaith digidol wedi ei rannu rhwng staff</li><li>Sicrhau offer priodol ar gyfer pob dosbarth</li><li>Sicrhau hyfforddiant ar gyfer staff</li><li>Parhau i ddatblygu a bwydo TGCh mewn i'n gwaith bob dydd</li></ul>
5. Datblygu ac ymhelaethu ar <b>Lais y Disgybl</b>	<ul style="list-style-type: none"><li>Dysgu trwy ymholi yn bwydo mewn i beth mae'r disgyblion am ddysgu</li><li>Parhau i ddablygu</li></ul>

## Blaenoriaethau ar gyfer 2021-2022

-  Lles
-  Cwricwlwm
-  Anghenion Dysgu Ychwanegol
-  Grwpiau o ddysgwyr
-  Asesiadau Personol